



RHWYDWAITH IECHYD CYHOEDDUS CYMRU

E-FWLETIN

MEHEFIN 2023

**MYND I'R AFAEL Â
PHROBLEMAU IECHYD
CYHOEDDUS CYMHLETH – YR
ANGEN AM GYDWEITHREDU
A PHARTNERIAETHAU
EFFEITHIOL**





Croeso

Croeso i e-fwletin mis Mehefin. Y mis hwn, mae gennym ni amrywiaeth o erthyglau sy'n amlygu llwyddiannau a heriau partneriaethau sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau iechyd cyhoeddus cymhleth. Maent yn dangos pwysigrwydd safbwyntiau lluosog, arweinyddiaeth ar y cyd a sut gall partneriaethau fynd ati i geisio deall blaenoriaethau strategol ei gilydd a'r berthynas rhwng blaenoriaethau.

Oes gyda chi unrhywprosiectau, ymchwil neu, astudiaethau achos neu awgrymiadau i'w rhannu gyda'r gymuned iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru? Anfonwch eich erthyglau publichealth. network@wales.nhs.uk neu @RICCymru

Mae angen i ni gael eich adborth ar ein tudalen we meddwl trwy systemau mewn iechyd cyhoeddus!

Mae offer a dulliau o feddwl trwy systemau yn ddefnyddiol wrth edrych ar broblemau iechyd cyhoeddus cymhleth a galluogi llunwyr polisi ac ymarferwyr i edrych ar y berthynas rhwng

gwahanol rannau o system, ble i ymyrryd yn y system a chanlyniadau bwriadedig ac anfwriadol gwneud newidiadau mewn system. Rydym wedi sylwi y bu cynnydd mawr mewn ymweliadau â'n tudalen meddwl trwy systemau mewn iechyd cyhoeddus ac rydym eisiau sicrhau ein bod yn darparu gwybodaeth/cynnwys perthnasol ar gyfer ein haelodau. Llenwch ein [harolwg byr](#).

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am ein e-fwletin drwy ateb [dau gwestiwn](#).

Cysylltu â Ni

Drwy anfon e-bost:
publichealth.network@wales.nhs.uk

Twitter:
@RICCymru



Cynnwys

4 Penawdau

Llywio ffordd trwy'r penblethau gweithio mewn partneriaeth
*: Dr Elizabeth Woodcock, Ymchwilydd Cydymaith Anrhydeddus,
Prifysgol Bangor*

Defnyddio ymagwedd iechyd y boblogaeth at weithredu er lles hinsawdd a natur ym Mae Abertawe

Hayley Beharrell, Rheolwr Cynllunio Cynaliadwyedd a Marc Davies, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Ffynhonnell: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Natur a Ni: Dychmygu Cymru'r dyfodol, lle mae natur a chymunedau'n ffynnu
Russell De' ath, Cyfoeth Naturiol Cymru

11 Trwy glep a si

Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru 2023

Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru

*Angharad Wooldridge, Uwch Ymarferwr Iechyd Cyhoeddus,
Sian Evans, Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus,
Yr Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Lles yn TAFF

15 Fideos

16 Newyddion & Adnoddau

17 Pynciau

18 Rhifyn Nesaf

Penawdau

Ymchwil

Llywio ffordd trwy'r penblethau gweithio mewn partneriaeth

Dr Elizabeth Woodcock, Ymchwilydd Cydymaith Anrhydeddus, Prifysgol Bangor

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) yw'r sefydliad allweddol ar gyfer cydweithredu ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac fe'u sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn nyddiau cynnar y Ddeddf, roedd PSB Gwynedd a Môn yn ymuno â fi mewn prosiect ymchwil gweithredol estynedig, fel rhan o fy astudiaeth doethuriaeth. Hefo ein gilydd roedden ni'n archwilio sut i greu diwylliant cydweithredol i lywio ffordd trwy'r penblethau gweithio mewn partneriaeth. Ar hyn o bryd, rwyf yn ymgysylltu hefo aelodau PSB a rhwydweithiau eraill yng Nghymru i ysgrifennu Briffiau Polisi ac i adeiladu ar ddarganfyddiadau'r ymchwil.

Profiad y PSB
Er gwaethaf ewyllys clar i gydweithredu a balchder amlwg am ansawdd proses y Bwrdd i ymgysylltu â chymunedau, roedd aelodau'r PSB yn adnabod tri phrif benbleth wrth geisio cyd-weithredu.

Yn gyntaf, roedd aelodau'n cyfrannu lefelau uchel arbenigedd strategol, ond roedd angen hefyd i ddatblygu

dealltwriaeth am feysydd eu partneriaid er mwyn creu cynlluniau strategol. Roedd amserlen y Ddeddf yn creu pwysau a oedd yn cyfyngu amser ar gyfer trafodaethau dwfn. Roedd creu is-grwpiau arbenigol yn gwella'r ffocws ar weithredu ond yn lleihau'r cyfle am ddeialog rhwng sefydliadau.

Yn ail, roedd aelodau'n ceisio cynnwys amcanion ei gilydd ac anghenion cymunedau lleol yn eu cynlluniau, ond heb gydddealltwriaeth ac o dan bwysau amser, roeddent yn gorfod dewis rhwng blaenoriaethau cystadleuol. Wrth greu gwahaniaeth rhwng aelodau 'statudol' a 'gwahodd' roedd y Ddeddf yn awgrymu mwy o

ddylanwad i'r blaenorol dros ddewis amcanion llesiant.

Trydedd, roedd pob is-grwpiau yn alinio i amcan llesiant unigol er mwyn atebolrwydd ond roedd rhaid ennill cymeradwyaeth, neu 'comisiwn' gan y Bwrdd llawn. Roedd diffyg dealltwriaeth am amcanion strategol pob partner yn oedi cytundeb. O ganlyniad, roedd y PSB mewn perygl o golli awdurdod dros ei hamcanion llesiant lleol, wrth i is-grwpiau ddechrau alinio'u strategaethau hefo polisiâu rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn ennill yr awdurdod i'w gweithredu.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Creu diwylliant cyd-weithredol

Hefo cymorth aelodau'r PSB, wnes i sefydlu grŵp ymchwil lle'r oedd aelodau o gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector yn cyfrannu eu gwahanol fathau o wybodaeth fel prif weithredwyr, ymarferwyr a gwirfoddolwyr. Fel cyd-ymchwilyr roedden ni'n ymgeisio at egwyddorion ymchwil weithredol: i greu perthnasau buddiol ar y cyd rhwng ein sefydliadau, i'w adnabod dylanwad anghyfartal ein sefydliadau a'u defnydd, ac i gydnabod sut mae ein sefydliadau ein hunan yn defnyddio pŵer.

Roedd tri arfer allweddol cyd-ddysgu'n ein helpu ni i wireddu ein hegwyddorion. Roedden ni'n creu deialog yn canolbwyntio ar y cyfraniadau posib rhwng ein sefydliadau. Roedden ni'n myfyrio dros brosiectau ar y cyd i ddeall pwy oedd wedi cyfrannu ac ennill mwyaf. Roedden ni'n datblygu iaith ar y cyd ar sail egwyddorion strategol pob sefydliad.

Roedd datblygu ein dealltwriaeth am yr angen i gyd-weithredu a'r pŵer a dylanwad anghyfartal yn ein hysgogi ni i barhau i gytuno cynlluniau gweithredu. Wrth gyfuno egwyddorion strategol gan bob un o'n sefydliadau roedden ni'n creu strategaeth ar y cyd hefo buddion ecolegol, iechyd cyhoeddus a datblygiad cymunedol, oeddem ni'n ei galw 'Llwybrau Gwyllt'.

Ar hyn o bryd rwyf yn trafod darganfyddiadau'r ymchwil hefo rheolwyr, cadeiryddion, aelodau iechyd Cyhoeddus a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae cyfleoedd ychwanegol yn codi i gyfrannu at weithdai ar y cyd â thîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

Y mae'r Briffiau Polisi ar gael yma:

[Enhancing partnership working in Public Services Boards - Prifysgol Bangor](#)

[Using a Wild Pathways strategy to extend the Local Nature Partnerships alliance - Prifysgol Bangor](#)

Os hoffech chi drafod y cyfleon yma ymhellach, cysylltwch â fi, os gwelwch yn dda: e.woodcock@bangor.ac.uk

Ymarfer

Defnyddio ymagwedd iechyd y boblogaeth at weithredu er lles hinsawdd a natur ym Mae Abertawe

Hayley Beharrell, Rheolwr Cynllunio Cynaliadwyedd a Marc Davies, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ym mis Mawrth 2023, mabwysiadodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Strategaeth gyntaf Iechyd y Boblogaeth Bae Abertawe, yn amlinellu egwyddorion arweiniol y bydd y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn eu dilyn i geisio gwella iechyd a lles cyffredinol y boblogaeth a lleihau anghydraddoldeb o ran iechyd. Mae'r argyfwng hinsawdd a natur yn her allweddol o ran iechyd y boblogaeth, ac mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau ffocws ar y maes hwn trwy weithredu ar ansawdd aer gwael, defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, ac ymgorffori iechyd mewn cynlluniau datblygu lleol a rhanbarthol, er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ar ôl gwranddo ar ein cydweithwyr a'n partneriaid, nodwyd pedair colofn allweddol sy'n cydnabod y rolau a'r dylanwadau amrywiol sydd gennym wrth weithredu ymagwedd iechyd y boblogaeth, a bydd yn helpu cyflawni'r uchelgais hon. Dyma enghreifftiau o weithgarwch presennol o fewn gweithredu o ran hinsawdd a natur ar draws y pedair colofn:

- Colofn 1- Fel darparwr gofal iechyd: datblygu cynllun peilot arobryn o glinigau asthma datgarboneiddio anadlyddion dan arweiniad fferyllwyr, a datblygu deunyddiau i gynorthwyo staff a chleifion ar eu taith werdd.
- Colofn 2- Fel cyflogwr: mae Grŵp Gwyrdd Bae Abertawe, sy'n weithgar ac yn cael ei arwain gan staff, yn hwyluso prosiectau cydweithredol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, e.e. gwella hwylusyddion teithio llesol, amgylcheddau bwyd iach a rhannu arfer gorau mewn cyfarfodydd adrannol.
- Colofn 3- Fel sefydliad angori: fel rhan o'r agenda datgarboneiddio, y Bwrdd Iechyd oedd sefydliad cyntaf y GIG yn y DU i gael ei fferm solar ei hun. Rydym hefyd wedi cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar y fenter Timau Gwyrdd, yn cefnogi 12 o dimau i leihau allyriadau, gwneud arbedion ariannol a deall y buddion cymdeithasol ehangach.
- Colofn 4- Fel partner cynhyrchiol: mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn partneriaethau lleol fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar ein blaenoriaethau rhanbarthol o ran hinsawdd a natur, cydweithio â phartneriaid ar y Siarter Teithio Iach, gweithio'n agos gyda chydweithwyr cynllunio awdurdodau lleol trwy brosesau cynllunio datblygiad lleol ac ymgysylltu â fforymau cenedlaethol yn GIG Cymru.



Mae fframio'r broblem o safbwynt iechyd y boblogaeth a defnyddio'r pedair colofn yn helpu amlygu cymhlethdod y problemau hyn, ond hefyd yn pwysleisio ein bod i gyd yn rhan o'r newid yn ein rolau amrywiol.

Dim ond y dechrau yw hyn o ran ninnau'n disgrifio ein taith tuag at ymgorffori ymagwedd iechyd y boblogaeth ymhellach ym mhopeth a wnawn. Bydd gweithio ar draws y pedair colofn hyn yn hanfodol er mwyn adeiladu ar yr hyn rydym ni eisoes yn ei wneud a chyflwyno'r strategaeth yn llwyddiannus yn lleol.

Mae partneriaethau yn eu holl ffurfiau yn allweddol i'n hymagwedd gan ein bod yn wynebu bygythiadau lleol a byd-eang i iechyd trwy'r

argyfyngau hinsawdd a natur na ellir eu datrys gan unrhyw un sefydliad ar ei ben ei hun. Trwy gydweithio â chymunedau, partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gallwn ni i gyd ddechrau creu'r newid sydd ei angen.

O ystyried graddfa'r heriau, mae angen i ni fod yn fwy beiddgar yn ein gweithredoedd ac edrych ar ein hymrwymadau dros y tymor hir, gan wneud yn siŵr ein bod yn herio ein hunain ac yn canolbwyntio ar yr angen dygn i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o annhegwch ar draws ein poblogaeth.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Beharrell hayley.bharrell@wales.nhs.uk neu Marc Davies marc.davies@wales.nhs.uk

Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ffynhonnell: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae'r [Matrics Aeddfedrwydd](#) hwn yn offeryn hunanasesu a luniwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn 2022. Gall helpu sefydliadau i ddeall ble maent o ran y pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, ymglymiad) a nodi'r camau sydd eu hangen i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales

Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Llywodraethu Addas
ar gyfer y Dyfodol

futuregenerations.wales

Natur a Ni: Dychmygu Cymru'r dyfodol, lle mae natur a chymunedau'n ffynnu

Russell De' ath, Cyfoeth Naturiol Cymru

Ym mis Chwefror 2022 dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru sgwrs genedlaethol gyda phobl Cymru yn gofyn pa ddyfodol yr hofffen ni i gyd ei weld ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Y nod oedd datblygu cyd-weledigaeth ar gyfer 2050, wedi'i chreu gan bobl yng Nghymru, er mwyn bod yn ffocws hirdymor i bawb yng Nghymru – ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol – a sbarduno degawd o weithredu. Ystyriwyd ei fod yn gyfle i ddatblygu ein dealltwriaeth gyfunol o'r hyn y mae pobl ei eisiau, ochr yn ochr â'n dealltwriaeth wyddonol o'r hyn sydd ei angen ar natur.

Mae canlyniad y broses hon, y gyd-weledigaeth ar gyfer natur a ni, wedi cael ei chreu gan bobl yng Nghymru ac mae'n ffordd bwerus o'n hatgoffa o'r dyfodol yr ydym i gyd yn ceisio ei greu.

Sefydlwyd Cynulliad Dinasyddion i ddwyn canfyddiadau'r sgwrs genedlaethol ynghyd a helpu i lunio'r gyd-weledigaeth. Fel rhan o'r pecyn o dystiolaeth a gyflwynwyd i'r cynulliad, clywodd y cyfranogwyr am yr anghydraddoldebau iechyd sydd gennym yng Nghymru a sut, oni bai ein bod yn gweithredu nawr, y byddai'r rhain ond yn cael eu gwaethygu gan yr argyfyngau natur a hinsawdd.

Yn 2050, pan fydd pobl a byd natur yn ffynnu gyda'n gilydd...

Bydd pobl a'r Llywodraeth yn ymrwmo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.

Bydd gwybodaeth hygyrch yn galluogi'r cyhoedd i ddeall sut mae byd natur yn effeithio ar eu bywydau, a beth allan nhw ei wneud i helpu i warchod yr amgylchedd naturiol.

Bydd arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyhoedd i gymryd rwy o ran mewn penderfyniadau am fyd natur.



SAALUWYD
LAURA SARKILA

Cyflwyno: Dymuniadau Nef a 10 - Sgrin 2 - 19 Mawrth 2023

Bydd mynediad eang at fyd natur yn helpu pobl ar hyd a lled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.

Bydd opsiynau mwy gwyrdd ar gyfer trafndiaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau bob dydd.

Bydd dulliau rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a themlo cysylltiad â'r tir yng Nghymru.

Mae'r broses ei hun wedi bod yn werth chweil ac yn heriol ar yr un pryd. Mae "pobl Cymru" mor amrywiol â'n natur a'r dirwedd ei hun. Yr hyn a ddarganfuwyd gennym yw dyfnder y gwerthoedd y mae pobl yn eu rhannu, nid dim ond mewn perthynas â natur, ond hefyd mewn perthynas â chyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb mynediad, defnydd tir teg, atebolrwydd am weithredoedd; a sut mae hyn oll yn cydblethu â'n ffordd o fyw o ddydd i ddydd. Nid materion amgylcheddol yn unig yw'r rhain, maent yn faterion diwylliannol hefyd - maent yn ymwneud â pha arferion a thraddodiadau sy'n bwysig i ni, a beth yn ein tyb ni yw elfennau anhepgor cymdeithas lwyddiannus a ffyniannus. Nid yw pawb yn rhannu ein hangerdd dros fyd natur, nac yn gweld yr un angen am drawsnewidiad. Rydym wedi clywed gan ficrocsm o ddinasyddion Cymru – efallai dim mwy na 5,000. Ond y gwahaniaeth allweddol rhwng yr ymarfer hwn ac ymarferion cynhwysiant yn y gorffennol yw'r her barhaus i gyrraedd cynulleidfa mor amrywiol â phosibl, ac i fod mor wrthrychol â phosib wrth ysgrifennu'r casgliadau terfynol. Fe wnaethom ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau ac offer i gasglu safbwyntiau, gan gynnwys gweithio gydag artistiaid creadigol, mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru, ac fe gawsom gofnod hefyd o leisiau pobl mewn cyfres o glipiau sain:

<https://freshwater.eventscase.com/CY/Natureandus/Phase-2-findings>

Rydym nawr yn rhyddhau gweledigaeth "y bobl" ar 24 Gorffennaf, gan ofyn i sefydliadau ac unigolion ar hyd a lled Cymru ystyried y rôl y gallwn oll ei chwarae i wireddu'r weledigaeth hon. Rydym yn annog sefydliadau i godi eu llais, i rannu eu hymrwymiad i'r weledigaeth hon, a gyda'n gilydd helpu i wneud gweithredu dros natur a'r hinsawdd yn rhan o bopeth a wnawn. Oherwydd heb fod natur, nid oes ni.

Natur a Ni: Mae'r Weledigaeth ar gyfer 2050, a'r adroddiadau ar yr holl waith ymgysylltu ar gael yn www.naturani.cymru

Mae Russell De' ath yn gweithio yn Nhîm Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru Russell.de-ath@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Trwy glep a si

Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru 2023

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am eich barn ar y [Strategaeth Tlodi Plant ddrafft i Gymru](#). Maent yn ymgynghori ar 5 amcan a fydd, yn eu barn nhw, yn newid bywydau plant a phobl ifanc mewn tlodi:

- Lleihau costau a gwneud y mwyaf o incwm teuluoedd.
- Creu llwybrau allan o dlodi.
- Cefnogi lles plant a theuluoedd, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan wasanaethau cymorth.
- Sicrhau gwaith trawslywodraethol effeithiol.

Ymgynghoriad yn cau: 11 Medi 2023

Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru

Angharad Wooldridge, Uwch Ymarferwr Iechyd Cyhoeddus,
Sian Evans, Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus,
Yr Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Lansiwyd [Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru](#) yn genedlaethol ym mis Mehefin 2022. Mae'n offeryn i gynorthwyo contractwyr gofal sylfaenol annibynnol (practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol, optometreg gymunedol a gofal deintyddol sylfaenol) i weithredu mewn ffyrdd sy'n ystyriol o'r hinsawdd yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfuniad o weithredoedd clinigol ac anghlinigol, sy'n cyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth allweddol, e.e. Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, lle bo modd.

Dyluniwyd y Cynllun i gynorthwyo contractwyr gofal sylfaenol i gyflawni targedau datgarboneiddio sero net erbyn 2030 a 2050 a gweithredu Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030.

Mae'r Cynllun yn rhaglen 3 blynedd wedi'i harwain gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â SOS-UK. Roedd y prosiect yn ffurfio rhan o Raglen Esiamplwyr Bevan yn 2022.

Cafodd y camau yn y fframwaith eu llunio ar y cyd â Grŵp Arbenigol yn cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, cyrff proffesiynol a defnyddwyr (Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Optometreg Cymru a Fferylliaeth Gymunedol Cymru) a chlinigwyr.

Ar ôl cofrestru, mae timau'n hunanddewis y camau yr hoffent eu rhoi ar waith o fewn eu practis, ac yn cyflwyno tystiolaeth yn ddiweddarach i blatfform ar-lein yn dangos bod hyn wedi'i gwblhau. Dyfernir un pwynt i bob cam a gwblhawyd, a chynhelir archwiliadau bob gaeaf i gydnabod arferion naill ai gyda gwobr efydd, arian neu aur.

Mae'r Cynllun bellach yn ei ail flwyddyn, a chymerwyd dysgu o beilot cychwynnol ar ddechrau 2022, yn ogystal ag adborth gan dimau a gofrestrwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun yn 2022. Dewiswyd y gwaith hefyd fel rhan o garfan 6 Rhaglen Esiamplwyr Bevan, a chynhaliwyd gwerthusiad fel rhan o'r broses hon.

Pa wahaniaeth y mae'r cynllun wedi'i wneud:

- Y fframwaith cynaliadwyedd amgylcheddol a Chynllun Gwobrwyo cyntaf ar gyfer pob un o'r 4 contractwr gofal sylfaenol yng Nghymru.
- 109 o bractisau a 162 o unigolion wedi cofrestru ym Mlwyddyn 1.
- Ar sail 4 cam gweithredu yn unig, amcangyfrifir bod 44,088kg o CO₂ wedi'u harbed.

Comisiynwyd gwaith i gyfrifo arbedion carbon ar gyfer gweithredoedd eraill.

- Dyfarnwyd 16 lefel efydd, 11 lefel arian, 8 lefel aur.
- Datblygwyd Blwyddlyfr o astudiaethau achos ac animeiddiadau.
- Newidiadau deddfwriaethol i grantiau gwella practisau cyffredinol – newid deddfwriaethol.
- Cynnwys mewn nifer fach o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig Clwstwr
- Mae systemau'n dylanwadu ar godi proffil gofal sylfaenol – o ganlyniad i ailgyfeirio'r Gronfa Genedlaethol Argyfwng Newid Hinsawdd tuag at ofal sylfaenol ar gyfer 2023/24

Os ydych chi'n gweithio mewn practis cyffredinol, fferyllfa gymunedol, optometreg neu ofal deintyddol sylfaenol ac yr hoffech gael gwybod mwy:

- Cysylltwch â ni: greenerprimarycare@wales.nhs.uk
- Cewch gofrestru yn rhad ac am ddim
- Ceisiwch ennyn diddordeb eich tîm yn y gwaith
- Dechreuwch yn fach a bydd y momentwm yn cynyddu
- Rhannwch o fewn eich grŵp cydweithredol a'ch clwstwr proffesiynol – ceisiwch gael pobl eraill i ymuno

Darganfyddwch fwy trwy ein gwefan ble byddwch yn dod o hyd i ddigonedd o adnoddau defnyddiol, fel ein Blwyddlyfr 2022 ac animeiddiad byr yn esbonio'r Cynllun.

Dysgu ar gyfer pobl eraill – dechreuwch gyda'r arloeswyr, peidiwch ag aros am y data na'r dystiolaeth i ddal i fyny cyn dechrau, cynlluniwch eich gwerthusiad a mesurau o'r dechrau.



Lles yn TAFF

Yn TAFF, rydym yn cydnabod bod cydberthyniad uniongyrchol rhwng ymgysylltu â chydweithwyr, hapusrwydd a lles. Rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol a byw yn unol â'n gwerth, sef Caredigrwydd.

Mae'r tîm lles yn TAFF yn canolbwyntio ar ymestyn a chefnogi lles cydweithwyr. Maent yn cynllunio calendr blynyddol o ddigwyddiadau bob blwyddyn, yn seiliedig ar adborth, i nodi dyddiadau lles allweddol. Wrth gyfarfod bob mis, maent yn cynllunio ystod eang o ddigwyddiadau fel gweithgareddau codi arian, sesiynau myfyrio, cystadlaethau ffotograffiaeth, sesiynau tyllino, teithiau cerdded amser cinio, diwrnodau garddio a sesiynau gwybodaeth.

Y llynedd, trefnodd TAFF Ddiwrnod Strategaeth a Lles, a oedd yn canolbwyntio ar sut gallai cydweithwyr a thimau yn TAFF helpu dod â gwerthoedd TAFF, sef Ymddiriedaeth, Uchelgais, Dysgu a Charedigrwydd, yn fyw. Ochr yn ochr â hyn, trefnwyd Ffair Les trwy gydol y diwrnod yn cynnig myfyrdod a thylino mewn cadair, ymwybyddiaeth ariannol, caffï menopos, gwasanaethau cymorth iechyd a lles o gynnis Canada Life – We Care, yn ogystal â buddion fel Aelodaeth Costco.



Eleni, ar ôl cydnabod bod angen cymorth ac ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Menopos ac Iechyd Meddwl Dynion, rydym yn ymdrechu i feithrin diwylliant lle mae cydweithwyr yn teimlo y gallant siarad yn agored am y pynciau hyn. Yn 2023, ein nod yw codi ymwybyddiaeth, darparu addysg, a chynnig cymorth ar gyfer yr holl gyflogeion sy'n ymdrin â'r materion hyn.

Yn TAFF, rydym yn cydnabod bod cydberthyniad uniongyrchol rhwng ymgysylltu â chydweithwyr, hapusrwydd a lles. Rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol a byw yn unol â'n gwerth, sef Caredigrwydd.

Mae'r tîm lles yn TAFF yn canolbwyntio ar ymestyn a chefnogi lles cydweithwyr. Maent yn cynllunio calendr blynyddol o ddiwyddiadau bob blwyddyn, yn seiliedig ar adborth, i nodi dyddiadau lles allweddol. Wrth gyfarfod bob mis, maent yn cynllunio ystod eang o ddiwyddiadau fel gweithgareddau codi arian, sesiynau myfyrio, cystadlaethau ffotograffiaeth, sesiynau tyllino, teithiau cerdded amser cinio, diwrnodau garddio a sesiynau gwybodaeth.

Y llynedd, trefnodd TAFF Ddiwrnod Strategaeth a Lles, a oedd yn canolbwyntio ar sut gallai cydweithwyr a thimau yn TAFF helpu dod â gwerthoedd TAFF, sef Ymddiriedaeth, Uchelgais, Dysgu a Charedigrwydd, yn fyw. Ochr yn ochr â hyn, trefnwyd Ffair Les trwy gydol y diwrnod yn cynnig myfyrdod a thyllino mewn cadair, ymwybyddiaeth ariannol, caffï menopos, gwasanaethau cymorth iechyd a lles o gynnis Canada Life – We Care, yn ogystal â buddion fel Aelodaeth Costco.

Eleni, ar ôl cydnabod bod angen cymorth ac ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Menopos ac Iechyd Meddwl Dynion, rydym yn ymdrechu i feithrin diwylliant lle mae cydweithwyr yn teimlo y gallant siarad yn agored am y pynciau hyn. Yn 2023, ein nod yw codi ymwybyddiaeth, darparu addysg, a chynnig cymorth ar gyfer yr holl gyflogeion sy'n ymdrin â'r materion hyn.

Rydym wedi partneru ag Equality Counts i gynnal cyfres o weithdai Ymwybyddiaeth o'r Menopos, rôl rheolwyr mewn darparu cymorth, a hyfforddiant ar gyfer Mentoriaid Menopos. Mae sesiynau parhaus a gefnogir gan nyrs gymwys sy'n arbenigo mewn iechyd menywod, wedi'u cynllunio trwy gydol y flwyddyn i alluogi sgwrs parhaus a mynd i'r afael ag ymholiadau gan ein cydweithwyr. Rydym wedi cwblhau'r gweithdai Ymwybyddiaeth o'r Menopos a Rheolwyr yn llwyddiannus hyd yma, sydd wedi cael adborth gwych, dealltwriaeth well, a didwylledd cynyddol. Mae TAFF hefyd yn ceisio cael ardystiad fel sefydliad sy'n Ystyriol o'r Menopos.

Yn ystod COVID, gwelsof gynydd yn yr heriau iechyd meddwl sy'n wynebu ein cydweithwyr, gyda chydweithwyr sy'n wrywod yn bod yn fwy llafar â'u cydnabyddiaeth a'r angen am gymorth iechyd meddwl. I gydnabod hyn, cysylltodd TAFF ag 'Amser i Newid Cymru' a rhoi cynllun ar waith i greu ymwybyddiaeth, chwalu rhwystrau am iechyd meddwl, a darparu cymorth. Mynychodd cynrychiolydd o ymgyrch 'Amser i Newid Cymru' ein sesiynau briffio cydweithwyr i siarad am leihau'r stigma parhaus yn ymwneud ag iechyd meddwl dynion. Byddwn yn parhau i weithio gyda nhw ar y maes pwysig hwn. Rydym hefyd wedi ymrwmo i lofnodi adduned Amser i Newid Cymru.

Yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i les cydweithwyr, rydym yn cynnig mynediad at Raglen Cymorth i Gyflogeion. Mae hwn yn wasanaeth cwnsela cyfrinachol sy'n darparu cymorth proffesiynol ar gyfer heriau personol a phroffesiynol amrywiol, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl, fel ei gilydd. Rydym hefyd yn hyrwyddo gwasanaeth ymyrraeth gynnar a gwasanaeth cymorth cwnsela a gynigir gan Canada Life, ein Hyswirwyr Iechyd Parhaol.

Credwn trwy hyrwyddo ymwybyddiaeth well o'r menopos ac iechyd meddwl dynion y gallwn greu amgylchedd yn y gweithle lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gweld, eu deall a'u cefnogi. Rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd i wneud TAFF yn lle gwych i weithio!

Fideos



Canfod ac atal masnach anghyfreithlon mewn cyffuriau, alcohol a thybaco yng Nghymru

Mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y marwolaethau a derbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol anghyfreithlon, ochr yn ochr â'r risg barhaus sy'n deillio o dybaco, yn argyfwng iechyd cyhoeddus sy'n gofyn am gydweithredu a chydgyssylltu ar draws sectorau ac asiantaethau.

[Gwyllo](#)



Mynd i'r afael ag annhegwch iechyd yng Nghymru: Llwyfan Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru

Ymunwch ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop, sy'n lansio llwyfan arloesol newydd ar y we – Llwyfan Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru.

[Gwyllo](#)



Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – cynyddu cyfleoedd iechyd a lles i'r eithaf ar gyfer pobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 a'i nod yw darparu canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais...

[Gwyllo](#)

Archwiliwch ein llyfrgell fideo ar-lein

[Gweld ein holl fideos](#)

Newyddion & Adnoddau



[Effaith Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel \(CPTPP\) ar iechyd...](#)

11-07-2023



[Sicrhau effaith fwyaf posibl eich ymdrechion – dau offeryn newydd i ddefnyddio gwyddor ymddygiad](#)

04-07-2023



[Cyflwyno cyfyngiad ar gynnyrch â braster, siwgr a halen uchel](#)

28-06-2023

[Pob Newyddion](#)

[Cymru Iachach: Ymateb y Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg](#)

Llywodraeth Cymru

[Iechyd Deintyddol y Cyhoedd](#)

Iechyd Cyhoeddus Cymru

[Pob Adnoddau](#)

Pynciau

Prevention and Improvement in Health and Healthcare

Nursing Now Cymru/Wales

Mental Ill Health

Mental Health Conditions

Suicide and self-harm prevention

Non-communicable Diseases

Diabetes

Communicable disease

Foodborne Communicable Diseases

Influenza (Flu)

Sexually Transmitted Infections

Coronavirus (COVID-19)

People

LGBT+

Gender

Learning, physical and sensory disabilities

Maternal and newborn health

Offenders

Older adults

Ethnicity

Carers

Working age adults

Children and young people

Early years

Adverse Childhood Experiences (ACEs)

Health related behaviours

Psychoactive substances

Alcohol

Food and Nutrition

Healthy Weight

Accident and Injury Prevention

Smoking and vaping

Physical Activity

Oral Health

Sexual health

Mental Wellbeing

Stress and resilience

Arts and health

Spirituality

Wider determinants of health

Poverty

Income and debt

Benefits

Housing

Homelessness

Fuel poverty

Housing quality

Education and Training

Preschool

School

Further, higher and tertiary education

Community

Assets Based Approaches

Social capital

Environment

Climate change

Natural environment

Sustainable development

Built environment

Employment

Unemployment

Precarious work

Good, fair work

Health in all policies

Health Inequalities

Social justice and human rights

Wellbeing of future generations

Approaches and methods in public health practice

Communities4Change Wales

Systems thinking in public health

Evaluation

Behavioural Science

Pob Pynciau

Rhifyn Nesaf

GWEITHREDU'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Nid yw pawb yn cael yr un cyfleoedd i fyw, ffynnu a llwyddo ac mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar lawer o bobl yng Nghymru. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn arwain at ddeilliannau anghyfartal mewn addysg, gwaith, safonau byw, cyfranogiad cymunedol a diogelwch personol.

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Tân ac Achub, wneud pethau'n wahanol. Gan adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud, mae'r Ddyletswydd yn rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau drwy ofyn i sefydliadau ystyried sut mae eu penderfyniadau

strategol yn effeithio ar y rheiny sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

Rydym yn chwilio am erthyglau ar gyfer ein e-fwletin nesaf sy'n dangos sut mae sefydliadau wedi gwella deilliannau i'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol ac felly wedi cyfrannu at ddatblygu Cymru decach a mwy llewyrchus. Byddem yn croesawu erthyglau sy'n tynnu sylw at lwyddiannau a heriau gweithredu'r Ddyletswydd.

[Contribute](#)

